# Agenda - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Iau, 7 Rhagfyr 2023

Amser: 12.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Catherine Hunt**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddTai@senedd.cymru

**Yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd, derbyniodd y Pwyllgor gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw ar gyfer eitem 1**

## 1 Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) - trafod y prif faterion

(12.30)

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 3 Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) - Tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(13.30) (Tudalennau 1 - 26)

Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Michael Kay, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Etholiadau, Llywodraeth Cymru

Laura Mitchell, Cyfreithiwr y Llywodraeth, Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru

Angharad Thomas-Richards, Cynghorydd Rhaglen Diwygio Etholiadol, Adran Etholiadau, Llywodraeth Cymru

Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

## 4 Papurau i'w nodi

(Tudalen 27)

**4.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - Amrywiaeth mewn llywodraeth leol**

(Tudalennau 28 - 33)

**4.2 Llythyr gan Gadeirydd Y Pwyllgor Deisebau - P-06-1334 P-06-1334 Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru**

(Tudalen 34)

**4.3 Llythyr gan Y Gweinidog Newid Hinsawdd - Bil Rhentwyr (Diwygio)**

(Tudalen 35)

**4.4 Llythyr gan Llamau i'r Pwyllgor Cyllid - Cyllideb Ddrafft 2024-25**

(Tudalennau 36 - 39)

**4.5 Llythyr gan Gorwel - Cyllideb Ddrafft 2024-25**

(Tudalennau 40 - 41)

**4.6 Canfyddiadau'r arolwg - Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

(Tudalennau 42 - 53)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer gweddill y cyfarfod

## 6 Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) - trafod y prif faterion

(15.00)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

**7 Rhagfyr 2023 – clawr y papurau i'w nodi**

| **Rhif y papur** | **Mater** | **Oddi wrth** | **Gweithredu** |
|---|---|---|---|
| Papur 1 | Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol | Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol | I'w nodi |
| Papur 2 | P-06-1334 Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru | Cadeirydd Y Pwyllgor Deisebau | I'w nodi |
| Papur 3 | Bil Rhentwyr (Diwygio) | Y Gweinidog Newid Hinsawdd | I'w nodi |
| Papur 4 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 | Llamau i'r Pwyllgor Cyllid | I'w nodi |
| Papur 5 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 | Gorwel | I'w nodi |
| Papur 6 | Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) | Canfyddiadau'r arolwg | I'w nodi |

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-RE-2788-23 Doc 3

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
SeneddTai@senedd.cymru

27 Tachwedd 2023

Annwyl John,

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai sef Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol - Hydref 2023**

Diolch i'r Pwyllgor am eu gwaith gwerthfawr ar y pwnc pwysig hwn ynghylch Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol. Mae ystyriaeth y Pwyllgor o'r dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gyflwynwyd iddynt wedi arwain at adroddiad ac argymhellion defnyddiol sy'n cryfhau argymhellion adroddiad y Pwyllgor yn 2019 ynglŷn â'r un pwnc.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella amrywiaeth mewn swyddi etholedig yn ogystal â galluogi unigolion sy'n dymuno sefyll mewn etholiad yn eu cymunedau i wneud hynny.

Mae eich adroddiad yn canolbwyntio ar nifer o faterion pwysig, gan gynnwys cydweithio i godi ymwybyddiaeth o rannu swyddi a'u hyrwyddo ar gyfer rolau gweithredol ac annog unigolion i rannu profiadau a safbwyntiau gwerthfawr drwy'r arolwg ymgeiswyr. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd i unigolion anabl a grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol gymryd rhan lawn mewn democratiaeth leol. Mae'r rhain yn feysydd lle y mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo, ond mae camau pellach y gellir eu cymryd o hyd i wella cyfleoedd i unigolion.

Mae Bil Etholiadau ac Aelodau Etholedig (Cymru), sy'n mynd rhagddo drwy'r Senedd ar hyn o bryd, yn cryfhau'r dull hwn a bydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer cyflwyno cynlluniau a fydd yn helpu pobl i gymryd rhan mewn democratiaeth leol drwy sefyll mewn etholiad a chynrychioli eu cymunedau.

Rydym wedi comisiynu a chyhoeddi ystod o ymchwil sy'n llywio cam nesaf ein rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym hefyd eisiau bod yn glir ynghylch pa gamau y gellir eu cymryd i gynorthwyo unigolion ar draws yr ystod ehangach o nodweddion gwarchodedig. Hoffem hefyd ystyried trefniadau eraill i sicrhau trefniadau cymorth sydd wedi'u teilwra i wahanol grwpiau, yn ddibynnol ar y rhwystrau y maent yn eu hwynebu. Bydd hyn yn ein helpu ni i lunio cynlluniau cymorth a'u datblygu yn y dyfodol.

Rydym yn awyddus i weithio gyda rhanddeiliaid a'r holl bartneriaid i sicrhau dull o gydweithio a fydd yn cyflawni cynnydd pellach yn y maes hwn.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai sef Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol:**

**Argymhelliad 1**
Mae'r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gydag CLILC i wella'r gyfradd ymateb i'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r arolwg ymhlith ymgeiswyr a chynghorwyr, a rhannu arfer gorau rhwng awdurdodau lleol.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor. Mae'r gostyngiad yn nifer yr unigolion sy'n cwblhau'r arolwg yn siomedig.

Byddwn yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i ystyried pa gamau pellach y gallwn eu cymryd i hyrwyddo pwysigrwydd yr arolwg ac i annog rhagor o bobl i'w gwblhau.

<u>Goblygiadau Ariannol</u> – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 2**
Mae'r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r holl bartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, i nodi meysydd o arfer da i wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol ac i rannu'r profiadau hynny a dysgu ohonynt.

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd i rannu arferion gorau ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyried, gyda phartneriaid, a fyddai hi'n fuddiol cynnal digwyddiad yn ystod yr Hydref yn 2024 i arddangos arferion gorau a datblygu dulliau newydd er mwyn hybu mwy o amrywiaeth mewn democratiaeth leol.

<u>Goblygiadau Ariannol</u> – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau presennol.

**Argymhellion 3 a 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag CLILC i asesu effeithiolrwydd yr holl fentrau i gynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol, gan gynnwys gweithredu Datganiadau Amrywiaeth a'u heffaith.

Mae'r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu a gwerthuso effaith dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i hyrwyddo cyfranogiad democrataidd. Mae hyn yn cynnwys mesur effaith strategaethau cyfranogiad cyhoeddus awdurdodau lleol a rhannu arfer da.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod mentrau allweddol sy'n anelu at annog mwy o amrywiaeth yn cael eu hadolygu i ganfod a ydynt yn cyflawni eu nodau.

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau cynhwysfawr i gefnogi mentrau amrywiaeth a chynhwysiant llywodraeth leol, megis y Strategaethau Cyfranogiad y Cyhoedd sy'n gorfod nodi sut y bydd y cyngor yn sicrhau'r ystod ehangaf bosibl o safbwyntiau gan y cyhoedd i lywio busnes y cyngor. Yn Hydref 2024 byddwn yn asesu sut y mae'r strategaethau ledled Cymru yn cyd-fynd â'r canllawiau cyhoeddedig. Bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn llywio gwaith pellach yn y maes hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 5**
Mae'r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r holl bartneriaid perthnasol i ganfod cyfleoedd i hyrwyddo ymhellach y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig a buddion y gronfa.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Bil Etholiadau ac Aelodau Etholedig (Cymru) yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun cymorth ariannol ar gyfer pobl anabl sy'n sefyll am swydd etholedig.

Byddwn yn parhau i weithio gydag Anabledd Cymru ac eraill i nodi ffyrdd eraill o gefnogi pobl anabl i gymryd rhan yn llawn mewn democratiaeth leol.

Goblygiadau ariannol – Nodir y costau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r gronfa ar sail ddeddfwriaethol yn yr wybodaeth ategol i Fil Etholiadau ac Aelodau Etholedig (Cymru). Bydd cyllid ar gyfer cynlluniau unigol yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses gyllidebol arferol.

**Argymhelliad 6**
Mae'r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o werthuso'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig yn cael eu hystyried ymhellach, gan sicrhau bod cymorth amserol a digonol i ymgeiswyr anabl cyn etholiadau llywodraeth leol y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd canlyniad gwerthuso'r gronfa beilot yn llywio trefniadau'r gronfa yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 7**
Mae'r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid ehangu neu ddatblygu mentrau megis y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig mewn pryd ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol nesaf, er mwyn cefnogi ymgeiswyr o grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylai'r gwaith hwn gael ei ddatblygu ni waeth a fydd y darpariaethau yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn dod yn gyfraith ai peidio.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn cynnwys darpariaeth i roi trefniadau ar waith i ddileu'r rhwystrau i gymryd rhan mewn etholiadau ar gyfer pobl o grwpiau

nodweddion gwarchodedig eraill a'r rhai y mae amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn effeithio arnynt.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi'r rhwystrau hynny a pha gynlluniau cymorth y gellir eu rhoi ar waith er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Os na ddaw'r Bil yn gyfraith, byddwn yn parhau i weithio gydag eraill i ddarparu mesurau anneddfwriaethol i wella cyfranogiad.

Goblygiadau Ariannol - Byddai cost ynghlwm wrth ehangu'r Gronfa, er hynny, caiff y costau hyn eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhellion 8 a 9**
Mae'r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â phartneriaid llywodraeth leol, gydweithio i godi ymwybyddiaeth o rannu swydd a'i hyrwyddo ar gyfer rolau gweithredol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru hwyluso mwy o rannu profiadau awdurdodau lleol mewn cysylltiad â rhannu swydd mewn rolau gweithredol er mwyn deall y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth. Dylai hefyd sicrhau bod data rhannu swydd yn cael eu casglu'n well er mwyn gallu monitro effaith rhannu swydd yn rheolaidd wrth gyfrannu at wella amrywiaeth ar draws awdurdodau.

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo manteision a chyfleoedd rhannu swyddi ac yn ystyried gyda llywodraeth leol sut y gellir rhannu gwybodaeth am drefniadau rhannu swyddi yn well ymhlith awdurdodau lleol a sut y gallant rannu arferion gorau.

Rydym wedi ymrwymo i ymgynghori ar ymestyn darpariaethau rhannu swyddi mewn perthynas ag aelodau etholedig mewn llywodraeth leol. Dyna yw ein nod o hyd.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 10**
Mae'r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r sector cynghorau tref a chymuned i sicrhau bod cymorth, hyfforddiant ac adnoddau digonol ar gael i hwyluso'r defnydd o dechnoleg aml-leoliad ar gyfer cyfarfodydd ym mhob cyngor cymuned yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae gwaith eisoes wedi dechrau i ddarparu cymorth digidol, hyfforddiant ac adnoddau i'r sector cynghorau tref a chymuned. Mae hyn yn dilyn cyhoeddi adroddiad gan Brif Swyddog Digidol Llywodraeth Leol (LGCDO) ar barodrwydd digidol cynghorau cymuned yn gynharach eleni.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi sicrhau bod hyd at £150,000 ar gael yn 2023-24 i ariannu'r gwaith o ddarparu cynllun gweithredu a arweinir gan y sector i ddarparu cymorth digidol i gynghorau cymuned a thref, sy'n cynnwys darparu cyfarfodydd hybrid.

**Argymhelliad 11**
Mae'r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru, yn sgil cau Chwarae Teg, asesu’r capasiti ledled Cymru i gyflwyno cynlluniau mentora a chanfod yn gyflym sut y gellir llenwi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.

**Ymateb: Derbyn**

Mae cynlluniau mentora yn ffordd dda o gyflwyno unigolion i wleidyddiaeth a darparu gwell dealltwriaeth o ofynion a chyfleoedd gweithredu o fewn democratiaeth leol.

Mae trafodaethau eisoes wedi eu cynnal i asesu effaith rhoi'r gorau i weithrediadau Chwarae Teg.  Mae trefniadau ar waith gyda chyflogwyr i barhau â'r lleoliadau ar gyfer carfannau 2022/23 a 2023/24, ac mae'r sefydliadau wedi recriwtio ar gyfer 23/24.

Yn ogystal, drwy'r Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant, mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i'r rhaglen fentora Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal, o dan arweiniad Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (RhCM Cymru) mewn partneriaeth ag Anabledd Cymru, EYST a Stonewall Cymru. Mae llawer o'r cyllid ar gyfer y trefniadau hyn yn cael ei ddarparu drwy'r Gronfa Loteri Fawr.

<u>Goblygiadau Ariannol</u> – Dim. Caiff penderfyniadau ariannu yn y dyfodol am y rhaglen Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal eu gwneud fel rhan o benderfyniadau ehangach am y gyllideb.

**Argymhelliad 12**
Mae'r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i’r Pwyllgor ar ganlyniad ei gwaith i ddwyn partneriaid allweddol ynghyd i frwydro yn erbyn cam-drin mewn gwleidyddiaeth.

**Ymateb: Derbyn**

Disgwylir i'r digwyddiad hwn gael ei gynnal ym mis Ionawr 2024. Yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad y digwyddiad, gwahoddir y Pwyllgor i enwebu cynrychiolydd i gymryd rhan.

<u>Goblygiadau Ariannol</u> – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 13**
Mae'r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gymryd camau pendant a chadarn i fynd i’r afael â cham-drin ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Ymateb: Derbyn**

Dylai ymgeiswyr ac aelodau lleol ac Aelodau o'r Senedd allu dod ymlaen a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd heb ofni camdriniaeth.

Byddwn yn parhau i godi'r mater hwn gyda Senedd y DU ochr yn ochr â nodi camau y gallwn eu cymryd yng Nghymru i fynd i'r afael â'r cynnydd niweidiol yn yr ymddygiadau amhriodol hyn.

<u>Goblygiadau Ariannol</u> – Dim.

**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd. wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

29 Tachwedd 2023

Annwyl John

Deiseb P-06-1334 Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru

Trafododd y Pwyllgor Deisebau'r ddeiseb uchod yn ein cyfarfod ar 23 Hydref, ynghyd â gohebiaeth gan Bwyllgor y Bil Diwygio ar Deisebydd.

Yn y cyfarfod, cytunodd yr aelodau i ysgrifennu at eich Pwyllgor er mwyn dod â'r ddeiseb hon i'ch sylw a chytunwyd i ystyried y ddeiseb hon eto ar ôl i achosion Cyfnod 1 ar gyfer y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ddod i ben.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan at: https://busnes.senedd.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=41308&Opt=3.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy'r cyfeiriad e-bost isod, neu drwy ffonio 0300 200 6454.

Yn gywir

Jack Sargeant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

JJ/PO/408/23

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
E-bost - Llywydd@senedd.cymru

29 Tachwedd 2023

Annwyl Elin

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Rhentwyr (Diwygio) i'r Senedd ar 17 Mai 2023. Nid oedd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y pryd.

Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithio ar welliannau i'r Bil a fydd yn atal arfer mympwyol landlordiaid ac asiantiaid o ddefnyddio polisïau “Dim hawlwyr budd-daliadau” a “Dim plant” mewn perthynas ag eiddo rhent i denantiaid a darpar denantiaid. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU i ymestyn y darpariaethau hyn i Gymru.

Gosodwyd y gwelliannau sy'n ceisio cyflwyno'r gwaharddiad ar yr arferion hyn i Gymru a Lloegr ar 15 Tachwedd. Mae dadansoddiad cyfreithiol o'r cymalau sy'n ymwneud â'r gwaharddiad wedi'i gwblhau, ac roedd y darpariaethau hyn yn rhan o 182 o welliannau i'r Bil. Gallai rhai o'r gwelliannau fod angen cydsyniad deddfwriaethol pellach, ac er bod dadansoddiad cyfreithiol o'r gwelliannau pellach wedi dechrau, ni fydd wedi'i gwblhau mewn pryd i fodloni'r terfyn amser arferol o bythefnos yn Rheol Sefydlog 29. Byddaf yn gwneud fy ngorau i osod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyn gynted â phosibl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, John Griffiths AS.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llamau

Imagine a World Without Homelessness

**Cyflwyniad Llamau i'r Pwyllgor Cyllid:**

**Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25**

**Cyflwyniad**

Mae gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai yng Nghymru yn wynebu pwysau sylweddol. Mae'r galw am wasanaethau Llamau wedi cynyddu'n sylweddol, ac rydym yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl ifanc rydym yneu cefnogi sy'n cyflwyno anghenion cymorth cymhleth iawn. Mae ein cyllid ar gyfer 'Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai', ac eto mae'n rhaid i ni ddarparu cymaint mwy na hynny, nad yw wedi'i gynnwys yn y contractau presennol nac yn cael eu talu amdano. Mewn rhai achosion, y gwaith hwn sydd yn llythrennol yn cadw pobl sydd â hanes o hunan-niweidio difrifol, neu ymdrechion i gyflawni hunanladdiad, yn fyw.

Mae cost darparu gwasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol, er nad oes unrhyw gynnydd i'r Grant Cynnal Tai. Mae llawer o'n contractau'n cael eu talu rhwng 20% a 30% yn llai na'r gost wirioneddol ar gyfer ariannu'r gwasanaethau hyn, gan nad oeddent yn ystyried y cynnydd mewn chwyddiant. Rydym eisoes yn rhoi cymhorthdal i gontractau gwerth isel drwy ein gweithgareddau codi arian elusennol ein hunain, ond wrth i unigolion a busnesau brofi problemau costau byw tebyg, mae hwn wedi dod yn amgylchedd llawer mwy heriol.

Yn ogystal, mae comisiynwyr eisoes yn dweud wrthym fod ymyrraeth gynnar, atal, a gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen dan fygythiad wrth iddynt ganolbwyntio ymdrechion ar wasanaethau argyfwng. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwyslais i'w groesawu ar bwysigrwydd ymyrraeth gynnar i gyflawni'r uchelgais o wneud digartrefedd yn brin, yn fyr ac yn ddi-ail, ond unwaith y bydd y gwasanaethau hyn wedi'u colli, yn syml iawn, ni fydd y sector yn gallu bodloni nodau'r Papur Gwyn ar Derfynu Digartrefedd yng Nghymru.

**Cynnydd yn y galw am wasanaethau:**

Derbyniodd ein Llinell Gymorth Digartrefedd Ieuenctid y nifer uchaf o alwadau y mis diwethaf, cynnydd o 50% ers misoedd blaenorol, gan amlygu'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc mewn argyfwng a phwysigrwydd gwasanaethau adnabod, atal ac ymyrryd yn gynnar.

Mae atgyfeiriadau wedi parhau i gynyddu ar gyfer lleoedd lloches ar draws Llamau, gyda 279 o atgyfeiriadau ar gyfer ein 64 o leoedd yn 2022/23 (cynnydd o 114 neu 69% ers y llynedd). Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gynyddu capasiti trwy agor 2 loches gwasgaredig (yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful). Roedd y galw am leoedd yn golygu nad oeddem yn gallu darparu ar gyfer 90 o atgyfeiriadau gan fod llochesi'n llawn, ac nid oedd 16 arall yn gallu cael cymorth yn y gofod a oedd ar gael oherwydd eu hanghenion cymorth a/neu faint y teulu.

Llamau
Imagine a World Without Homelessness

Yn y gymuned, derbyniodd ein gwasanaethau Cymorth fel y bo'r Angen 475 o atgyfeiriadau, cynnydd o 20% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Llesiant a chadw staff**

Mae recriwtio a chadw staff ar draws y sector yn hynod o anodd. Mae pobl yn gadael am swyddi llai straenus a chyflogau uwch mewn mannau eraill. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar ein gallu i recriwtio a chadw staff. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gorfod defnyddio gweithwyr asiantaeth i lenwi swyddi gwag am y tro cyntaf. Mae costau gwneud hyn yn uchel iawn o gymharu â staff cyflogedig ac, o ystyried y galw cynyddol ar draws yr holl ddarparwyr cymorth, mae'n farchnad gystadleuol iawn.

Nid yw codiadau'r Cyflog Byw Cenedlaethol wedi'u cynnwys yn ein cyllid dan gontract, felly disgwylir i ni ddod o hyd i'r arian o rywle arall. Er ein bod yn croesawu'r cynnydd i gydweithwyr, nid oes gennym unrhyw arian ychwanegol i dalu amdano. Oherwydd yr argyfwng costau byw, mae ein staff ar y cyflogau isaf bellach yn profi'r un problemau â'r bobl rydym yn eu cefnogi, megis anallu i dalu biliau, fforddio siopau bwyd, neu dalu rhent.

Mae'r sefyllfa hon yn anghynaladwy. Rhoddwyd cyllid i wasanaethau gofal yng nghylch cyllideb y llynedd i ddarparu cyflogau Cyflog Byw Gwirioneddol i staff, ond ni ddigwyddodd hyn ar gyfer gwasanaethau cymorth. Mae cyllidebau llinell sefydlog wedi arwain at ddatchwyddiant cyflog, a dyma brif achos y broblem recriwtio a chadw yn y sector.

**Mae dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â gwariant ataliol yn cael ei gynrychioli mewn dyraniadau adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac yn lleddfu'r galw ar wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar).**

Mae comisiynwyr yn dweud wrth y sector fod gwasanaethau atal mewn perygl gan fod angen iddynt ganolbwyntio arian ar ymyriadau mewn argyfwng oherwydd diffyg cyllid. Mae hon, yn ein barn ni, yn economi ffug gan fod y gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar yn arbed arian yn y tymor hwy, fel y dengys yr enghreifftiau hyn:

- Gall cyfryngu atal y berthynas deuluol rhag chwalu mewn modd cynaliadwy a'r argyfwng costus o ddigartrefedd i berson ifanc; arbed dros £27,000 y person mewn costau llety â chymorth arbenigol.
- Dangosir yn gyson mai tor-perthynas teuluol yw prif ysgogydd digartrefedd ieuenctid. Gall ymyrraeth gynnar wedi'i thargedu fel ein gwasanaethau cyfryngu alluogi pobl ifanc i aros yn ddiogel yn eu cartref teuluol yn llwyddiannus; atal costau sylweddol llety dros dro amhriodol yn aml – dangoswyd ei fod wedi dyblu yng Nghymru yn y 5 mlynedd diwethaf i dros £40m.
- Mae cefnogi unigolyn i reoli ei iechyd meddwl yn well trwy ein gwasanaethau arbenigol fel cwnsela yn cael effaith ddofn ar eu hapusrwydd ac ansawdd

eu bywyd. Mae bron i £5 biliwn yn cael ei golli drwy lai o gynhyrchiant a chostau gofal iechyd yng Nghymru bob blwyddyn.
- Trwy hwyluso ail-ymgysylltu ag addysg ac atal gwaharddiad, gall ein gwasanaethau allgymorth EMPHASIS arbed tua £370,000 i'r wladwriaeth mewn addysg gydol oes, budd-daliadau, gofal iechyd a chostau cyfiawnder troseddol.

**A yw'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i sefydliadau trydydd sector, sy'n wynebu mwy o alw am wasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r pandemig, yn ddigonol?**

Wrth adael y pandemig, rydym wedi gweld cynnydd yng nghymhlethdod anghenion a risg ar gyfer y bobl ifanc rydym yn eu cefnogi, gyda mwy o brofiad o drawma ac anghenion iechyd meddwl a lles cysylltiedig. Mae hyn ar adeg pan fo cymorth gan asiantaethau eraill yn fwy anodd ei gyrchu.

Mae nifer y menywod sy'n wynebu digartrefedd oherwydd cam-drin domestig yn cynyddu. Fodd bynnag, mae hefyd wedi bod yn arafu argaeledd eiddo symud ymlaen i fenywod a theuluoedd oherwydd galw digynsail am lety, a phwysau digartrefedd mwy cyffredinol.

Nid yw'r argyfwng costau byw ond wedi gwaethygu'r broblem, ac eto nid yw cyllid yn cyd-fynd â'r galw cynyddol am wasanaethau cymorth.

**Casgliad**

Mae Llamau bob amser wedi ymdrechu i ddarparu gwasanaethau cymorth effeithiol o ansawdd uchel, ond mae'n anodd gweld sut y gellir cynnal gwasanaethau ar y lefel bresennol heb gynnydd mewn cyllid drwy'r HSG. Bydd hyn yn ei dro yn gweld llawer mwy o bobl yn methu â chael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt mewn modd amserol.

Mae'r sector cyfan yn cael trafferth gyda galw cynyddol, cymhlethdod anghenion a diffyg cyllid. Mae Llamau, ynghyd â darparwyr cymorth eraill, wedi penderfynu peidio ag ail-dendro ar gyfer rhai gwasanaethau gan na ellir eu darparu i'r safon angenrheidiol gyda'r cyllid sydd ar gael. Nid oes unman ar ôl i fynd o ran arbedion cost.

Heb godiad i'r Grant Cynnal Tai am y flwyddyn ariannol 2024/25, mae perygl gwirioneddol y bydd gwasanaethau'n dymchwel, yr agenda ymyrraeth gynnar yn cael ei cholli – a chyda hynny, y cyfle i gyflawni'r newid unwaith mewn cenhedlaeth a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Papur Gwyn ar Derfynu Digartrefedd yng Nghymru.

Llamau
Imagine a World Without Homelessness

cefnogaeth a mwy • support and more
Gorwel

Hen Argraffdy
Ffordd yr Efail
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7ER
0300 111 2121

49 Stryd Fawr
Blaenau Ffestiniog
Gwynedd
LL41 3AN
0300 111 2121

Derwydd
Heol y Dwr
Dolgellau
Gwynedd
LL40 1DD
0300 111 2121

Tŷ Silyn
Penygroes
Caernarfon
Gwynedd
LL54 6LY
0300 111 2122

Mr John Griffiths AS
Cadeirydd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru

29 Tachwedd 2023

Annwyl Mr Griffiths,

Parthed: Cyflwyno Tystiolaeth Pryderon Grant Cymorth Tai 2024/25

Rwy'n ysgrifennu atoch chi fel Prif Swyddog Gorwel, yr uned fusnes yng nghymdeithas dai Grŵp Cynefin sy'n darparu gwasanaethau cymorth i bobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o golli eu cartref a phobl sy'n profi camdriniaeth ddomestig. Rydym ni'n gweithio ar draws Ynys Môn, Gwynedd a Sir Ddinbych.

Yn amlwg mae'r ddau ohonom ni'n deall yr heriau sy'n wynebu Llywodraeth Cymru wrth wneud penderfyniadau cyllido, ond yr hyn yr hoffwn dynnu sylw ato yw'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad ar hyn o bryd gan ei fod yn wahanol iawn i'r hyn sydd wedi gweld o'r blaen.

Fel y gwyddoch, rwy'n siŵr, mae'r argyfwng costau byw cyfredol yn cael effaith ddistrywiol ar lawer o bobl yn ein cymunedau. Rydym ni'n gweld mwy a mwy o bobl na fu arnynt angen cefnogaeth gan sefydliad fel un ni o'r blaen, ac sy'n wynebu dyfodol na wnaethant ei ddychmygu a dim syniad sut i wynebu'r hyn sydd o'u blaenau. Rydym ni'n angerddol o blaid y cymunedau rydym ni'n gweithio ynddyn nhw ac rydym ni'n ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog a chynhwysol sy'n gwneud beth bynnag y bo modd i helpu'r unigolyn neu'r teuluoedd ddod trwy'r sefyllfa maen nhw'n ei wynebu.

Os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu parhau i ddyrannu'r un lefel o gyllideb neu yn gwneud toriadau yng Ngrant Cymorth Tai yn 2024/25 yna bydd oblygiadau sylweddol i gyllideb a gwasanaethau Gorwel. Heb gynnydd sylweddol yng Ngrant Cymorth Tai bydd rhaid cysidro ail fodelu cynlluniau, atal cynnydd chwyddiant yng nghyflogau cydweithwyr yn 2024/25, gwaredu swyddfeydd a gofod diogel ar gyfer goroeswyr, diswyddo cydweithwyr a rhoi rhai cytundebau presennol yn ôl i gomisiynwyr. Ynghyd â'r camau uchod mae hefyd angen amlygu'r pryderon isod sydd yn effeithio ar Gorwel.

- Allan o 13 o gytundebau presennol Gorwel dim ond 6 sydd yn ariannol hyfyw yn 2024/25.
- Costau cynnal cytundebau gwasanaethau wedi cynyddu 11% i gymharu â 2022/23.

Grŵp Cynefin
Mae Grŵp Cynefin yn gymdeithas dai elusennol a gofrestrwyd o dan y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 (rhif 21194R) a wedi cofrestru gyda Llywodraeth Cymru (rhif LO29)
Grŵp Cynefin is a charitable housing association incorporated under the Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014 (no. 21194R) and registered with the Welsh Assembly Government (no. LO29)

- Ar gyfer cyllideb 2023/24 mae Gorwel wedi buddsoddi £189,315 o arian wrthgefn er mewn cynnal cytundebau, gan sicrhau bod cydweithwyr Gorwel yn derbyn chwyddiant yn dilyn argyfwng costau byw. Nid yw hyn yn opsiwn nac yn gynaliadwy ar gyfer 2024/25.
- Cynnydd sylweddol o **77%, (sef 293** o bobl) wedi derbyn cefnogaeth cam-drin ddomestig Gorwel, Grant Cymorth Tai hyd at ddiwedd chwarter 2, 2023/24 i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Cynnydd o **8%,** (**sef 276** o bobl) wedi derbyn cefnogaeth atal ddigartrefedd Gorwel, Grant Cymorth Tai hyd at ddiwedd chwarter 2, 2023/24 i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Cynnydd mewn cymhlethdod mewn anghenion cefnogi, gyda llai o fewnbwn gwasanaethau statudol mae staff rheng flaen yn treulio mwy o amser yn ymateb i achosion.
- Os bydd rhaid ail fodelu a thorri gwasanaethau bydd hyn yn cynyddu pwysau ar wasanaethau statudol.
- Byddai toriadau yng ngwasanaethau rheng flaen camdriniaeth ddomestig yn cynyddu risg o ddynladdiad domestig mewn cymunedau.
- Ansefydlogrwydd cyllid a diffyg chwyddiant cyflogau yn golygu bod recriwtio a chadw staff profiadol gydag arbenigedd yn y maes yn eithriadol o anodd.
- Mae staff mewn gwasanaethau arbenigol Grant Cymorth Tai yn cael llai o gyflog am yr un gwaith â staff yn y sector statudol.
- Trosiant staff yn uchel, o ganlyniad mae angen adnoddau ychwanegol i hyfforddi staff newydd. 18 staff rheng flaen wedi terfynu cyflogaeth yng Ngorwel yn 2022/23. 10 o staff rheng flaen Gorwel wedi terfynu cyflogaeth hyd at chwarter 2, 2023/24 - wedi derbyn swyddi yn y maes statudol sy'n cynnig cyflogau ac amodau cyflogaeth fwy ffafriol.

Y rhwystredigaeth yw ein bod yn gwybod o astudiaethau a gomisiynwyd bod y gwasanaethau a ddarperir gennym ni yn arbed arian yn y pen draw. Am bob £1.00 a fuddsoddir yng ngwasanaeth cam-drin domestig Gorwel, er enghraifft, cynhyrchir £3.56 o werth cymdeithasol i'r unigolyn a'r gymuned. Yn yr un modd, am bob £1.00 a fuddsoddir yn y gwasanaeth Atal Digartrefedd, mae'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchir yn £9.00.

Hyderaf y byddwch fel Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn rhoi sylw manwl i'r pryderon uchod gan annog Llywodraeth Cymru i gynyddu Grant Cymorth Tai.

Yn gywir,



Osian Gwyn Elis
Prif Swyddog Gorwel
C.C. Mr Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd Y Pwyllgor Cyllid, Senedd Cymru

# **Canfyddiadau'r arolwg**

# Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

7 Rhagfyr 2023

Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'n craffu ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Fel rhan o'i waith craffu Cyfnod 1 ar y Bil, cynhaliwyd arolwg a oedd yn canolbwyntio ar Ran 1, Penodau 2 a 3 o'r Bil – treialu a diwygio cofrestru etholiadol heb chymwysiadau ac etholiadau Cymru.

## Yr arolwg

**1.** Roedd yr arolwg hunanlenwi, lled-strwythuredig ar gael am pum wythnos, rhwng 23 Hydref a 26 Tachwedd 2023. Roedd yr arolwg ar gael i'w lenwi ar-lein ac ar ffurf copi caled ar gais.

**2.** Gofynnwyd 13 o gwestiynau yn yr arolwg am y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â threialu a diwygio cofrestru etholiadol heb chymwysiadau ac etholiadau Cymru. Rhoddwyd gwybodaeth gefndirol i'r ymatebwyr am y trefniadau presennol a'r newidiadau arfaethedig.

## Hyrwyddo

**1.** Hyrwyddwyd yr arolwg drwy amrywiaeth o sianeli, gan gynnwys y rhai a ganlyn, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Sianeli cyfryngau cymdeithasol Senedd Cymru, gan gynnwys Facebook, Instagram, LinkedIn ac X (Twitter gynt). Trefnwyd hysbysebion wedi'u targedu hefyd i annog ymatebion o ardaloedd lle rydym yn tueddu i gael cyfradd ymateb is.
- Rhwydweithiau a sianeli cyfryngau cymdeithasol rhanddeiliaid allweddol. Crëwyd pecyn cymorth cyfryngau cymdeithasol a chodau QR i alluogi rhanddeiliaid a grwpiau i rannu a hyrwyddo'r arolwg yn hawdd.
- Pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn sesiynau Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd. Cafodd yr arolwg ei ddosbarthu hefyd i Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru.
- Digwyddiadau gan gynnwys Cynhadledd Genedlaethol Ymgysylltu â Thenantiaid TPAS Cymru yn Llandrindod a digwyddiad Diwrnod Plant y Byd yn Wrecsam.

## Canfyddiadau

**2.** Er mwyn llunio'r crynodeb hwn, cynhaliwyd dadansoddiad o'r set ddata gyflawn. Gellir priodoli'r holl ddata i ymatebion unigol a gellir dadansoddi ymhellach ar gais. Ymdrinnir â phob cwestiwn yn yr arolwg yn ei dro.

**3.** Caiff y canlyniadau eu cyfrifo yn ôl y nifer a ymatebodd i'r cwestiwn penodol, yn hytrach na'r nifer a ymatebodd i'r arolwg yn gyffredinol. Cafwyd 86 o ymatebion.

**4.** Sylwer, er bod yr arolwg hwn yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar safbwyntiau'r ymatebwyr, mae'n bwysig cydnabod efallai na fydd y canfyddiadau'n gwbl gynrychioliadol o'r boblogaeth. Mae'r data'n adlewyrchu barn a phrofiadau'r unigolion a gymerodd ran yn yr arolwg, a gall fod amrywiadau ymhlith gwahanol grwpiau demograffig neu'r rhai nad oedd wedi ymateb. Fel gydag unrhyw arolwg, mae'r canlyniadau'n cynnig cipolwg ar y farn yn y grŵp sampl. Dylid bod yn ofalus wrth gyffredinoli'r canfyddiadau hyn i'r boblogaeth ehangach.

**5.** Cafwyd ymatebion o bum rhanbarth y Senedd.

## Cwestiwn 1

**Swyddog Cofrestru Etholiadol sy'n gyfrifol am lunio a chynnal y gofrestr o bobl sydd â'r hawl i bleidleisio mewn etholiad, sef etholwyr.**

**Mae'r Bil yn caniatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ychwanegu etholwyr cymwys at y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru heb fod angen i'r etholwr gyflwyno cais.**

**I ba raddau rydych chi'n cefnogi'r syniad o gofrestru etholwyr yn awtomatig?**

**6.** Roedd 58 y cant o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cefnogi'n gryf y syniad o gofrestru etholwyr yn awtomatig, gydag 28 y cant yn rhagor yn cefnogi'r syniad ychydig. Roedd 8 y cant yn gwrthwynebu'r syniad ychydig neu'n ei wrthwynebu'n gryf. Nid oedd 6 y cant yn ei gefnogi nac yn ei wrthwynebu neu gwnaethant ddewis 'Ddim yn gwybod'.

## Cwestiwn 2

**A allwch chi roi rhesymau dros eich ymateb? (er enghraifft, a oes rhesymau penodol pam rydych yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r newid arfaethedig hwn?)**

**7.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol i raddau helaeth am y newidiadau arfaethedig. Daeth tair prif thema i'r amlwg, gyda nifer o ymatebwyr yn cyfeirio at fwy nag un thema yn eu hymateb.

**8.** Mae'r canlynol yn rhoi cipolwg ar ymatebion, a oedd yn canolbwyntio ar gael gwared ar rwystrau i bleidleisio.

> *"Dw i'n meddwl bod dyletswydd ddinesig ar bawb i bleidleisio. Mae camau sy'n cael eu cymryd i wella hygyrchedd a chael gwared ar rwystrau rhag cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, yn enwedig ymhlith grwpiau a allai wynebu heriau unigryw, yn sicr yn gam cadarnhaol."*
>
> *"Drwy gofrestru pobl yn awtomatig i bleidleisio, rydych yn cael gwared ar rwystr yn y broses etholiadol. Efallai bydd yn annog mwy o bobl sydd wedi ymddieithrio â phleidleisio i gymryd y cam olaf i'r orsaf bleidleisio."*

> *"Mae digon o rwystrau sy'n atal pobl rhag pleidleisio eisoes. Mae cofrestru i bleidleisio'n un arall, felly mae'n syniad da ei wneud yn awtomatig yn fy marn i. Mae'n un peth yn llai i bobl ei wneud."*

**9.** Ystyriwyd y newidiadau arfaethedig yn gatalydd posibl ar gyfer annog mwy o bobl i bleidleisio, gan rai ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd hon yn thema amlwg arall a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae'r canlynol yn rhoi cipolwg ar yr ymatebion hynny:-

> *"Dw i'n meddwl y byddai'n annog pobl i bleidleisio, os ydynt wedi'u cofrestru'n awtomatig. Ac mae taer angen mwy o bleidleiswyr i bleidleisio ar gyfer etholiadau Cymru."*
>
> *"Dw i'n deall y bydd y cynnig hwn yn gwneud Cymru yn gyson â gwledydd democrataidd eraill. Mae'n rhaid bod cynyddu'r cyfle i bobl bleidleisio'n beth da."*
>
> *"Dw i'n credu y dylem fod yn annog mwy o bobl i bleidleisio a'i gwneud yn haws iddynt wneud hyn yw'r cam cyntaf."*

**10.** Roedd y drydedd thema a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion yn canolbwyntio ar yr angen i symleiddio'r broses bleidleisio er mwyn gwella hygyrchedd, yn enwedig i grwpiau penodol a allai brofi heriau unigryw.

> *"Dw i'n cytuno â hwyluso'r broses. Efallai na fydd rhai'n llwyr ddeall y broses gofrestru i bleidleisio, a gallai hyn roi sicrwydd i'r rhai a hoffai fod ar y gofrestr eu bod arni."*
>
> *"Mae'n symleiddio'r broses ac mae'n fwy costeffeithiol."*
>
> *"Oherwydd ei bod yn llawer haws i bobl oedrannus a phobl anabl gael eu hychwanegu at restr etholwyr yn awtomatig yn lle gorfod llenwi ffurflenni cymhleth, mae'n gwneud pethau'n symlach i bawb."*

**Cwestiwn 3**

**Beth yw'r dull gorau y gall Llywodraeth Cymru helpu pobl i ddeall y newidiadau i'r ffordd y caiff etholwyr cymwys eu hychwanegu at y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru? Sgoriwch yn y drefn y byddech chi'n ei dewis.**

**11.** Ysgrifennu'n uniongyrchol at yr etholwr i roi gwybod iddo am y newidiadau oedd yr opsiwn a ddewiswyd amlaf yn gyntaf gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (36 y cant), ac yna cyfathrebu â'r etholwr mewn rhyw ffordd arall, er enghraifft, neges destun neu e-bost (19 y cant). Dewiswyd ymgyrch gwybodaeth genedlaethol fel y dewis cyntaf ar gyfer 14 y cant o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, gyda 12 y cant o'r ymatebwyr yn dewis ymgyrch cyfryngau cymdeithasol fel eu dewis cyntaf. Cafodd ymgyrch deledu a radio ei dewis gyntaf gan 9 y cant o'r ymatebwyr, gydag 8 y cant yn dewis gweithio gyda sefydliadau fel y Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth fel eu dewis cyntaf.

**Cwestiwn 4**

**Os ydych yn credu y gallai Llywodraeth Cymru helpu pobl i ddeall y newidiadau i'r ffordd y caiff etholwyr cymwys eu hychwanegu at y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru mewn ffordd nad yw wedi'i rhestru yn y cwestiwn blaenorol, rhannwch eich barn â ni isod.**

**12.** Cafwyd 23 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, a awgrymodd ffyrdd amgen (i'r opsiynau a amlinellwyd yng nghwestiwn 3 yr arolwg) o helpu pobl i ddeall y newidiadau i'r ffordd y caiff etholwyr cymwys eu hychwanegu at y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru.

**13.** Er na ddaeth prif thema i'r amlwg o'r atebion, roedd y pwnc a godwyd amlaf gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar addysg.

> *"Addysg orfodol mewn ysgolion."*
>
> *"Addysg i bobl ifanc yn yr ysgol, y coleg a'r brifysgol. Busnesau sy'n cynnig addysg broffesiynol ar gofrestru pleidleiswyr. Fideo cyfryngau cymdeithasol byr yn cynnwys Cymry enwog."*
>
> *"Ymgysylltu â'r ysgol uwchradd, dosbarthiadau chwech/colegau a phrifysgolion."*

**14.** Yn dilyn hyn oedd yr angen i sicrhau bod unrhyw wybodaeth am y broses yn hygyrch i bawb.

> *"Ymgyrch hawdd ei deall neu o leiaf iaith glir."*
>
> *"Dosbarthu gwybodaeth hawdd ei deall."*

> *"Hyd yn hyn, nid yw'r broses hon wedi bod yn hygyrch i bobl ag anableddau dysgu ei deall ac ymgysylltu â hi. Mae'n bwysig darparu ymgyngoriadau a gwybodaeth am newidiadau mewn ffordd hawdd ei deall."*

**Cwestiwn 5**

**Mae'r gofrestr lawn yn fersiwn o'r gofrestr sy'n cynnwys enw a chyfeiriad pawb sydd wedi cofrestru i bleidleisio, ac eithrio'r rhai sy'n cofrestru'n ddienw i bleidleisio. Rhan o'r gofrestr lawn yw'r gofrestr agored. Mae'r fersiwn hon ar gael i unrhyw un sydd am ei phrynu, fel busnesau neu elusennau. Gall unrhyw un optio allan o'r gofrestr agored.**

**Er mwyn sicrhau bod etholwyr ifanc a bregus yn cael eu gwarchod, ni fydd y gofrestr etholiadol agored yng Nghymru ar gael ar gyfer etholiadau Cymru.**

**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â thynnu'r gofrestr etholiadol agored ar gyfer etholiadau yng Nghymru?**

**15.** Roedd 71 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ychydig â thynnu'r gofrestr etholiadol agored, tra bod 12 y cant yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno ychydig. Roedd 17 y cant ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu wedi dewis 'Ddim yn gwybod'.

**Cwestiwn 6**

**A allwch chi roi rhesymau dros eich ateb? (er enghraifft, a oes rhesymau penodol pam rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r newid hwn?)**

**16.** Daeth dwy brif thema i'r amlwg o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn; yr angen i amddiffyn grwpiau agored i niwed a'r potensial i gamddefnyddio data personol.

**17.** Mae'r dyfyniadau canlynol yn rhoi cipolwg ar yr ymatebion a gyfeiriodd at yr angen i amddiffyn grwpiau agored i niwed , gyda rhai yn mynd i'r afael â'r heriau penodol y gallai rhai grwpiau ddod ar eu traws.

> *"Mae unrhyw gam sy'n cael ei gymryd i amddiffyn grwpiau agored i niwed yn beth da. Fel dinesydd, nid wyf yn gweld unrhyw reswm arbennig o gryf dros gadw'r gofrestr agored."*
>
> *"Mae'n gweithredu fel mesur diogelu i bobl ifanc agored i niwed a/neu bobl ifanc."*

> *"Mae diogelwch yn ffactor risg enfawr a dw i'n cefnogi unrhyw beth lle rydym yn lleihau'r risg i bobl agored i niwed yng Nghymru."*
>
> *"Nid yw llawer o bobl ag anableddau dysgu'n gyfforddus i'w gwybodaeth fod ar gofrestr agored a chael ei phrynu at ba ddiben bynnag, yn enwedig pan nad yw'r diben yn ymwneud â phleidleisio. Gall fod yn anodd deall y gwahaniaeth rhwng y cofrestrau llawn ac agored, a gall fod yn anodd deall optio allan hefyd. Mae tynnu'r gofrestr agored yn ymddangos yn ateb da i amddiffyn pleidleiswyr ifanc ac agored i niwed."*

**18.** Roedd ymatebion a oedd yn canolbwyntio ar ddefnyddio data personol hefyd yn gysylltiedig â phryderon ynghylch preifatrwydd unigolyn.

> *"Dw i'n credu bod angen codi ymwybyddiaeth pobl o'r gofrestr agored ac i ba raddau y mae eu gwybodaeth ar gael i grwpiau sy'n gallu prynu'r data hynny. Mae'r pryderon ynghylch preifatrwydd a diogelu data yn sylweddol. Mae'n hanfodol diogelu preifatrwydd ac unigolion, yn enwedig grwpiau agored i niwed. Ar ben hynny, mae'n rhaid pwyso a mesur y cydbwysedd rhwng tryloywder a phreifatrwydd yn ofalus er mwyn sicrhau bod y broses ddemocrataidd yn deg i bawb."*
>
> *"Mae'n gwneud synnwyr ar gyfer diogelu'r cyhoedd ac i atal posibilrwydd camddefnyddio data preifat."*
>
> *"Ni ddylai'r data fod ar werth."*
>
> *"Ni fyddwn am i fusnesau neu elusennau eraill wybod fy ngwybodaeth."*

**19.** Mae'n bwysig nodi, er bod y rhan fwyaf o ymatebion o blaid tynnu'r gofrestr agored, roedd rhai ymatebion yn cyfeirio at yr anfanteision posibl yn gysylltiedig â thynnu'r gofrestr agored.

> *"Mae'r gofrestr etholiadol yn ddogfen ddefnyddiol at lawer o ddibenion dilys, gan gynnwys ymchwil ac ymgyrchu gwleidyddol. Mewn democratiaeth, dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn rhad ac am ddim oni bai bod pobl yn mynegi dymuniad i gael eu cofrestru'n ddienw."*

> *"Roeddwn dan yr argraff y gall bod ar y gofrestr agored wella eich sgôr credyd a allai, i bobl ifanc â hanes credyd cyfyngedig, roi pobl ifanc dan anfantais."*
>
> *"Mae diffyg cofrestru'n agored yn ei gwneud yn anoddach ymgyrchu - hefyd, gyda gwybodaeth leol, mae cofrestr agored yn ei gwneud yn fwy tebygol y gellir nodi a chofrestru 'pleidleiswyr coll'."*

**Cwestiwn 7**

**Ydych chi'n meddwl bod cael gwared ar y gofrestr etholiadol agored yn ddigon i amddiffyn etholwyr ifanc a bregus?**

**20.** Dewisodd 46 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn 'Ddim yn gwybod'. Dywedodd 35 y cant o'r rhai a ymatebodd fod tynnu'r gofrestr etholiadol agored yn ddigon i amddiffyn etholwyr ifanc ac agored i niwed, tra dywedodd 18 y cant nad oedd hynny'n ddigon.

**Cwestiwn 8**

**Pa fesurau diogelu ychwanegol sy'n angenrheidiol yn eich barn chi er mwyn amddiffyn pleidleiswyr ifanc a bregus?**

**21.** Cafwyd 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y brif thema a ddaeth i'r amlwg yn canolbwyntio ar addysg a'r angen i godi ymwybyddiaeth am y newidiadau os cânt eu gweithredu.

> *"Addysg a defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i helpu pobl ifanc i ddeall y materion."*
>
> *"Gwnewch yn siŵr eu bod yn gwybod y gallant gofrestru'n ddienw - neu os yw'r gofrestr yn dod yn gofrestr awtomatig, gwnewch yn siŵr eich bod yn codi ymwybyddiaeth o'r gallu i wneud cais i fod yn ddienw."*
>
> *"Addysg, mae angen i bobl ifanc gael eu haddysgu mewn modd diduedd. Mae gwybodaeth ar-lein megis TikTok hefyd yn ffordd wych o hysbysu ac amddiffyn pleidleiswyr ifanc."*

## Cwestiwn 9

**Er y bydd y gofrestr agored yn cael ei thynnu ar gyfer etholiadau Cymru, bydd yn aros ar gyfer etholiadau Senedd y DU. Bydd angen i etholwyr yng Nghymru gofrestru o hyd i bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU.**

**Mae rhai wedi mynegi pryderon y gallai hyn arwain at ddryswch ac etholwyr cymwys yn cael eu hamddifadu, efallai, o'r hawl i bleidleisio mewn rhai etholiadau, a elwir yn ddifreiniad.**

**I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r pryderon a godir?**

**22.** Roedd 73 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno'n gryf neu ychydig y gallai tynnu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau Cymru arwain at ddryswch. Roedd 10 y cant yn anghytuno'n gryf neu ychydig â'r pryderon a godwyd, tra bod 17 y cant yn cytuno nac yn anghytuno neu wedi dewis 'Ddim yn gwybod'.

## Cwestiwn 10

**A allwch chi roi rhesymau dros eich ateb? (er enghraifft, pa risgiau rydych chi'n eu rhagweld?)**

**23.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar ddiffyg dealltwriaeth ymhlith aelodau o'r cyhoedd am ddatganoli a'r angen i godi ymwybyddiaeth o'r gwahaniaethau rhwng etholiadau Cymru ac etholiadau'r DU.

> *"Nid yw gwybodaeth am etholiadau gwahanol ymhlith aelodau o'r cyhoedd bob amser yn wych. Os bydd cofrestru awtomatig yn mynd rhagddo, efallai y bydd pobl yn meddwl ei fod yn gymwys i bob etholiad. Dylid cadw pleidleisio mor syml â phosibl. Dw i'n deall mai nod cofrestru awtomatig yw ei gwneud yn haws, ond gallai beri dryswch os na chaiff ei gyfleu'n dda iawn."*
>
> *"Dw i'n credu bod rhai aelodau o'r cyhoedd nad ydynt eisiau deall, na chymryd yr amser i ddeall, y gwahaniaethau rhwng etholiadau'r DU ac etholiadau Cymru.* Felly, bydd dryswch. Ond, dw i'n credu y dylem roi etholiadau Cymru yn gyntaf. Dyna'r hyn y byddai'r DU yn ei wneud..."

> *"Nid yw gwybodaeth am etholiadau gwahanol ymhlith aelodau o'r cyhoedd bob amser yn wych. Os bydd cofrestru awtomatig yn mynd rhagddo, efallai y bydd pobl yn meddwl ei fod yn gymwys i bob etholiad. Dylid cadw pleidleisio mor syml â phosibl. Dw i'n deall mai nod cofrestru awtomatig yw ei gwneud yn haws, ond gallai beri dryswch os na chaiff ei gyfleu'n dda iawn."*
>
> *"Mae'n anodd i lawer o bobl ag anableddau dysgu ddeall y broses gofrestru i bleidleisio ac, yn wir, gallai hyn ychwanegu dryswch. Mae'n ymddangos bod y buddion yn gorbwyso'r pryderon hyn, ar yr amod y caiff cynigion a newidiadau eu darparu'n hygyrch i bob pleidleisiwr, gan gynnwys mewn ffordd hawdd ei deall."*
>
> *"Mae cysondeb bob amser yn ddefnyddiol - gorau po leiaf y ffwdanu o ran pleidleisio felly a oes modd perswadio Senedd y DU i wneud yr un peth."*

## Cwestiwn 11

### Beth fyddai'r ffordd orau o osgoi'r risgiau hyn?

**24.** Roedd y brif thema a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar yr angen am negeseuon clir a ddarperir trwy wahanol gyfryngau.

> *"Ymgyrch gyfathrebu gryf iawn. Sicrhau bod gwybodaeth ar gael ac yn glir iawn mewn gorsafoedd pleidleisio."*
>
> *"Negeseuon clir drwy lythyr/e-bost/cyfryngau cymdeithasol/addysg."*
>
> *"Ei gwneud yn glir mewn gohebiaeth, dylai awdurdodau lleol a'r Comisiwn Etholiadol atgoffa pleidleiswyr cyn etholiadau'r DU."*
>
> *Ymgyrch gyfathrebu gydlynol, heb jargon, yn defnyddio sianeli cyfathrebu gwahanol (cyfryngau cymdeithasol, teledu, llythyr ac ati) i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn ymwybodol o'r gwahaniaethau (gan fod pobl yn dirnad gwybodaeth mewn ffyrdd gwahanol).*

## Cwestiwn 12

**Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud, os daw'r Bil yn gyfraith yng Nghymru, y bydd yn treialu cofrestru awtomatig gyda'r bwriad o gyflwyno'r model llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal cynllun peilot ac, o'r herwydd, gallent ddewis gwneud hynny heb dreialu cynllun(iau) yn gyntaf.**

**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai Llywodraeth Cymru brofi'r model llwyddiannus cyn iddo gael ei gyflwyno?**

**25.** Roedd 75 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn gryf neu ychydig y dylai Llywodraeth Cymru brofi'r model llwyddiannus cyn iddo gael ei gyflwyno. Dywedodd 10 y cant eu bod yn anghytuno'n gryf neu ychydig, tra bod 15 y cant yn rhagor o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno neu wedi dewis 'Ddim yn gwybod'.

## Cwestiwn 13

**A oes rhagor o sylwadau yr hoffech eu rhannu â ni am gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig?**

**Er enghraifft, a oes unrhyw beth rydych yn meddwl y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ei wneud yn wahanol o ran cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig?**

**26.** Cafwyd cymysgedd o ymatebion i'r cwestiwn hwn, heb thema gyffredin yn dod i'r amlwg. Ceir cipolwg ar yr ymatebion hyn isod:-

> *"Ewch amdani. Mae'n hen bryd ac mae angen iddo ddigwydd i wneud Cymru yn ddemocratiaeth fodern a chynhwysol. Nid oes angen profion, treialon, na chynlluniau mawreddog - maent yn wastraff amser ac arian gwerthfawr."*
>
> *"Dw i'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru roi etholiadau Cymru yn gyntaf, a bwrw ymlaen â chofrestru awtomatig. Pwy a ŵyr, efallai bydd y DU yn cael ei hannog i ddilyn yr esiampl!"*
>
> *"Peidiwch â gwastraffu mwy o arian. Dylai gael ei wario'n ddoeth - fel atgyweirio ffenestri ac offer sydd wedi torri mewn ysgolion."*

## Demograffeg ymatebwyr yr arolwg

### Pleidleisio

**27.** Roedd 91 y cant o'r ymatebwyr i'r cwestiwn wedi cofrestru i bleidleisio. Nid oedd 7 y cant wedi cofrestru, tra bod yn well gan 2 y cant beidio ag ateb.

### Lleoliad

**28.** Nododd 58 y cant o ymatebwyr yr arolwg eu bod o Dde Cymru, gyda 28 y cant yn dod o Ogledd Cymru a 14 y cant yn dod o Ganolbarth a Gorllewin Cymru.

### Rhyw

**29.** Nododd 54 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn fenywod, gyda 42 y cant yn nodi eu bod yn ddynion. Dewisodd 2 y cant 'Arall', gyda 2 y cant arall yn ffafrio peidio ag ateb.

### Oedran

**30.** Roedd 64 y cant o'r ymatebwyr rhwng 25 a 64 oed, gyda 26 y cant o'r ymatebwyr 24 oed neu'n iau. Roedd 10 y cant o'r ymatebwyr yn 65 oed neu'n hŷn.

### Ethnigrwydd

**31.** Roedd 89 y cant o'r ymatebwyr yn disgrifio'u hunain fel 'Gwyn'. Disgrifiodd 4 y cant o'r ymatebwyr eu hunain fel 'grwpiau ethnig cymysg neu aml-ethnigrwydd'. Disgrifiodd 2 y cant o'r ymatebwyr eu hunain fel 'Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig', gydag 1 y cant yn disgrifio'u hunain fel 'Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd'. Roedd yn well gan 4 y cant o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn beidio â dweud.

### Anabledd

**32.** Nid oedd 81 y cant o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn ystyried bod ganddynt anabledd. Roedd 17 y cant o'r ymatebwyr yn ystyried bod ganddynt anabledd tra roedd yn well gan 2 y cant o'r ymatebwyr beidio ag ateb.